| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, SIR GAERFYRDDIN 2023** |
| | Cystadleuaeth 127 – Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (Ad) |
| | Y Gwynt a'r Haul, W Rhys Nicholas |

Aeth y Gwynt a'r Haul un tro i gweryla,
Pa un ohonynt ill dau oedd y cryfa'.

"Fi yw'r cryfa'!" meddai'r Gwynt yn egnïol;
"Cawn weld, cawn weld," ebe'r Haul yn dra siriol.

Gwelsant hen ŵr ar ei daith yn helbulus,
A'i got amdano, un gynnes a thrwchus.

"A! Dyna'r prawf!" medai'r ddau gan gytuno,
"Yr un a dynn ei got oddi amdano".

"Hwnnw fydd gryfa'," ebe'r Gwynt yn ffyddiog;
"Hwnnw fydd gryfa'," ebe'r Haul yn serchog.

Rhuthrodd y Gwynt yn fwy ffyrnig nag arfer.
Chwythodd a chwythodd, ond i gyd yn ofer.

Ni wnaeth yr hen ŵr ond dal i ymlwybro
A thynnu ei got yn dynnach amdano!

Ond yna, gwenodd yr Haul ar ei orau,
Gan alw pob peth i ddawns ei belydrau.

"Mae'n twymo 'nawr," meddai'r gŵr ar y ddaear,
A thynnodd ei got i fod yn fwy claear!